



17.07.26

Annwyl deuluoedd Coed-y-Gof,

Wrth i ni gyrraedd diwedd blwyddyn ysgol brysur a llawn profiadau, hoffwn gymryd y cyfle i ddiolch yn ddifffuant i'n disgyblion am eu gwaith caled, eu brwdfrydedd a'r cyfraniad arbennig y maent wedi'i wneud at fywyd yr ysgol drwy gydol y flwyddyn. Mae wedi bod yn bleser gweld cymaint o gynnydd, llwyddiant a chyflawniad, a chreu cymaint o atgofion hapus gyda'n gilydd.

Hoffwn hefyd ddiolch o galon i chi, ein rhieni a'n gofalwyr, am eich cefnogaeth a'ch cydweithrediad parhaus. Mae eich cefnogaeth yn gwneud gwahaniaeth gwirioneddol ac yn chwarae rhan allweddol yn llwyddiant ein hysgol a lles ein plant.

Mae fy niolch hefyd yn ymestyn at ein staff a'n Llywodraethwyr arbennig. Rwy'n ffodus iawn o gael gweithio ochr yn ochr â thîm mor ymroddedig sydd, o ddydd i ddydd, yn rhoi'r plant wrth galon popeth a wnânt ac yn sicrhau addysg o'r safon uchaf mewn amgylchedd cynnes, gofalgwr a chynhwysol.

Dymunaf haf hapus, ymlaciol a llawn hwyl i chi gyd - a gobeithio y bydd yr haul yn parhau i dywynu! Edrychwn ymlaen at eich croesawu yn ôl i'r ysgol **ddydd Iau, 3^{ydd} o Fedi**.

Gyda diolch a dymuniadau gorau,

Ms Prytherch, *Pennaeth*

Dear Coed-y-Gof families,

As we reach the end of another busy and eventful school year, I would like to take this opportunity to thank our pupils for all their hard work, enthusiasm and the positive contribution they have made to school life throughout the year. It has been a pleasure to see their progress, achievements and successes, and to share so many memorable moments together.

I would also like to offer my sincere thanks to you, our parents and carers, for your ongoing support and partnership. Your encouragement and commitment make a real difference and play an important role in the success of our school community.

My thanks also go to our wonderful staff and Governors. I feel incredibly fortunate to work alongside such a dedicated team who place children at the heart of everything they do and who work tirelessly to provide the highest quality education within a warm, caring and inclusive environment.

I wish you all a happy, relaxing and enjoyable summer break, and hopefully the sunshine will stay with us too! We look forward to welcoming everyone back to school on **Thursday, 3rd September**.

With thanks and best wishes,

Ms Prytherch, *Headteacher*



Pob Lwc Blwyddyn 6

Wrth i'n disgyblion Blwyddyn 6 baratoi i gychwyn ar y bennod nesaf o'u taith addysgol yn yr ysgol uwchradd, hoffem ddiolch yn fawr iddynt am y cyfraniad arbennig y maent wedi'i wneud i fywyd Ysgol Coed-y-Gof.

Mae wedi bod yn bleser eu gweld yn datblygu, yn tyfu mewn hyder ac yn creu cymaint o atgofion hapus ar hyd y ffordd. Byddwn yn cofio eu personoliaethau unigryw, eu hiwmor, eu caredigrwydd a'r egni cadarnhaol a ddaeth ganddynt i'r dosbarthiadau ac i fywyd yr ysgol bob dydd.

Diolch i chi, Blwyddyn 6, am fod yn esiampl wych i'r disgyblion iau ac am eich holl waith caled dros y blynyddoedd. Rydym yn hynod falch ohonoch ac yn dymuno pob llwyddiant a hapusrwydd i chi wrth ichi gychwyn ar y cam nesaf.

Cofiwch - unwaith yn rhan o deulu Coed-y-Gof, wastad yn rhan o deulu Coed-y-Gof! ❤️



Good Luck Year 6

As our Year 6 pupils prepare to begin the next chapter of their educational journey at secondary school, we would like to thank them for the wonderful contribution they have made to life at Coed-y-Gof.

It has been a pleasure to watch them grow, develop in confidence and create so many happy memories along the way. We will remember their unique personalities, their sense of humour, their kindness, and the positive energy they have brought to our classrooms and school community every day.

Thank you, Year 6, for being such fantastic role models to the younger pupils and for all your hard work over the years. We are incredibly proud of you and wish you every success and happiness as you move on to the next stage of your journey.

Remember - once you are part of the Coed-y-Gof family, you will always be part of the Coed-y-Gof family.



Ffarwel a Diolch i Mr Lewis / Goodbye Mr Lewis

Hoffem gymryd y cyfle i ddiolch yn fawr i Mr Lewis am ei ymroddiad, ei arweinyddiaeth a'i gyfraniad arbennig i Ysgol Gymraeg Coed-y-Gof dros y pum mlynedd diwethaf.

Yn ystod ei gyfnod fel Dirprwy Bennaeth, mae Mr Lewis wedi chwarae rhan allweddol ym mywyd yr ysgol. O gefnogi staff a disgyblion bob dydd, i arwain mentrau pwysig megis datblygiad y Cwricwlwm i Gymru a dysgu drwy ymholiad, mae ei ymrwymiad i sicrhau'r profiadau gorau posibl i'n plant wedi bod yn amlwg i bawb.

Bydd llawer o aelodau'r gymuned ysgol yn cofio Alex am ei natur gynnes, ei synnwyr digrifwch a'i barodrwydd i gymryd rhan ym mhob agwedd o fywyd yr ysgol. Boed hynny ar deithiau addysgol, Arwain timoedd chwaraeon, mewn cynyrchiadau ysgol, yn yr Eisteddfod neu mewn gweithgareddau dyddiol, mae wedi cyfrannu'n helaeth at greu'r awyrgylch gofalgarg a chefnogol sy'n gwneud Coed-y-Gof yn lle mor arbennig.



Er ein bod yn drist ei weld yn gadael, rydym yn falch iawn ei fod wedi cael ei benodi'n Bennaeth yn Ysgol Tonyrefail. Mae hwn yn gam cyffrous iawn yn ei yrfa, ac rydym yn hyderus y bydd yn llwyddo'n aruthrol yn ei rôl newydd.

Diolch o galon, Mr Lewis, am bopeth. Byddi di wastad yn aelod gwerthfawr o deulu Coed-y-Gof, a dymunwn bob llwyddiant a hapusrwydd i ti yn y dyfodol.

Farewell and Thank You to Mr Lewis

We would like to take this opportunity to thank Mr Lewis for his dedication, leadership and outstanding contribution to Ysgol Gymraeg Coed-y-Gof over the past five years.

During his time as Deputy Headteacher, Mr Lewis has played a key role in the life of our school. From supporting staff and pupils on a daily basis to leading important developments such as the Curriculum for Wales and inquiry-based learning, his commitment to providing the very best experiences for our children has been evident to all.

Many members of our school community will remember Mr Lewis for his warm nature, sense of humour and willingness to get involved in every aspect of school life. Whether on educational visits, leading sports teams, school productions, Eisteddfod performances or everyday activities, he has contributed greatly to the caring and supportive atmosphere that makes Coed-y-Gof such a special place.

While we are sad to see him leave, we are delighted that he has been appointed Headteacher at Ysgol Tonyrefail. This is an exciting next step in his career, and we are confident he will be a tremendous success in his new role.

Thank you, Mr Lewis, for everything you have done for our school community. You will always be a valued member of the Coed-y-Gof family, and we wish you every success and happiness for the future.



Diolch am rodd / Thanks for a gift!

Hoffem ddiolch o galon i deulu Teddy Fryer am eu rhodd hael o £250 mewn talebau Waterstones. Diolch i'w caredigrwydd, rydym wedi gallu buddsoddi mewn ambell gyfres newydd o lyfrau yn ogystal â phrynu nifer o lyfrau ar gyfer ein Meithrin newydd. Bydd y llyfrau hyn yn cael eu mwynhau gan lawer o ddisgyblion dros y blynyddoedd i ddod. Diolch enfawr am eich cefnogaeth a'ch caredigrwydd.

We would like to extend our heartfelt thanks to Teddy Fryer's family for their generous donation of £250 in Waterstones vouchers. Thanks to their kindness, we have been able to invest in several new book series as well as purchase a number of books for our new Nursery class. These books will be enjoyed by many pupils for years to come. A huge thank you for your support and generosity.

Eich Llais / Your voice

Hoffem glywed eich barn am yr ysgol! Rydym wedi paratoi holiadur byr i rieni i'n helpu i ddeall beth rydym yn ei wneud yn dda a lle gallwn wella. Dim ond ychydig funudau mae'n ei gymryd, ac mae eich adborth yn gwneud gwahaniaeth mawr i'n helpu i greu amgylchedd dysgu cadarnhaol a chefnogol i bob plentyn.

Diolch o galon am gymryd yr amser i'w gwblhau - rydym wir yn gwerthfawrogi eich cefnogaeth!

Hello, We'd love to hear your views about the school! We've put together a short questionnaire for parents to help us understand what we're doing well and where we can improve. It only takes a few minutes, and your feedback makes a big difference in helping us create a positive and supportive learning environment for every child. **Thank you so much for taking the time to complete it - we really appreciate your support!**

[Eich Barn - rhieni a gwarchodwyr / Your Voice - parents and carers \(Haf/Summer 2026\) - Fill in form](#)





Presenoldeb / Attendance

24–25	89.9%		Targed 25 – 26	92%	Y flwyddyn 25–26	89.%
-------	-------	--	----------------	-----	------------------	------

Staffio 2026-27 Staffing

Dosbarth / Class	Blwyddyn / Yr	Athro / Teacher
Masarnen	6	Ms E Jones
Castanwydden	5	Ms Ff Morgans
Sycamorwydden	4	Ms N Rivers
Collen	3	Sioned Jones
Ywen	2	Manon Davies
Derwen	1	Aimee Meyer
Mes	DD / Meithrin	Fran Davies
Enfys	Cymysg DD-3 Mixed Reception – Y3	Jess Murphy
Cwtch	Cymysg 4-6 Mixed 4 - 6	Anna Jones/Gareth Roberts
Bedwen (SRB)	DD-2	Anna Jones (Ionawr/January)
Onnen (SRB)	3-6	Alun Evans
CPA / PPA		Becky McConnell

Dyddiadau HMS / INSET dates

01.09.26
02.09.26
02.10.26
05.10.26 (Clwstwr/cluster)
04.01.27
30.04.26

Gweithgareddau Haf! Summer Activities!

Beth yw Sialens Ddarllen yr Haf?

Mae Sialens Ddarllen yr Haf yn rhoi mynediad AM DDIM i deuluoedd at lyfrau a gweithgareddau yn y llyfrgelloedd a'r hybiau yn ystod yr haf.

- Mae plant yn cofrestru yn eu llyfrgell neu hyb lleol.
- Mae plant yn benthycu ac yn darllen o leiaf chwe llyfr llyfrgell o'u dewis.
- Gall teuluoedd ddod i ddigwyddiadau yn yr hybiau/llyfrgelloedd drwy gydol gwyliau'r haf.
- Mae plant yn casglu gwobrau wrth iddynt ddarllen ac yn ennill medal os ydynt yn cwblhau'r her!



Beth yw'r sialens fach?

I blant 3 oed ac iau.

- Cofrestru yn eich llyfrgell leol am ddim.
- Dewiswch unrhyw lyfrau y mae eich plentyn yn eu hoffi.
- Darllenwch a rhannwch y straeon gyda'ch gilydd.
- Casglu sticer ar gyfer pob llyfr i lenwi'r cerdyn casglwr.

Casglu chwe sticer i gwblhau'r her fach ac ennill sticer aur arbennig. Mae pob sesiwn amser stori a fynychir mewn llyfrgelloedd yn cyfrif fel llyfr a ddarllenir fel rhan o'r her fach!



Parti Lansio Sialens Ddarllen yr Haf!

Dydd Sadwrn 4ed o Gorffennaf

11yb—3yp

Helia Drysor, Gemau Bwrdd, Tafienni Lliwio



Hyb y Tyllgoed

Doyle Avenue



Caerdydd

CF5 3HU

029 2078 5583

fairwaterhub@cardiff.gov.uk

summerreadingchallenge.org.uk

THE READING AGENCY | **UNIVERSAL MUSIC GROUP**

CYFROLAU'N CANU READ to the BEAT

Sialens Ddarllen yr Haf 2026
Summer Reading Challenge 2026

Darparwyd drwy gydwethrediad â llyfrgelloedd
Delivered in partnership with libraries

sialensddarllenythaf.org.uk
summerreadingchallenge.org.uk

explore
your Cardiff Library

What is the Summer Reading Challenge?

The Summer Reading Challenge gives families **FREE** access to books and activities in the libraries and hubs during the summer.

- Children sign up at their local library or hub
- Children borrow and read at least six library books of their choice.
- Children collect rewards as they read and win a medal if they complete the challenge!



What is the Mini Challenge?

For children aged 3 and under.

- Sign up at your local library for **FREE**.
- Choose any books your child likes.
- Read and share the stories together.
- Collect a sticker for each book to fill up the collector card.
- Collect six stickers to complete the mini challenge and earn a special gold sticker.
- Each story time session attended in libraries count as a book read as part of the mini challenge!



Summer Reading Challenge Launch Party!

Saturday 4th July

11am - 3pm

Treasure Hunt, Board Games, Colouring



Fairwater Hub

Doyle Avenue

Cardiff

CF5 3HU

029 2078 5583

fairwaterhub@cardiff.gov.uk

summerreadingchallenge.org.uk

THE READING AGENCY | **UNIVERSAL MUSIC GROUP**

CYFROLAU'N CANU READ to the BEAT

Sialens Ddarllen yr Haf 2026
Summer Reading Challenge 2026

Darparwyd drwy gydwethrediad â llyfrgelloedd
Delivered in partnership with libraries

sialensddarllenythaf.org.uk
summerreadingchallenge.org.uk

explore
your Cardiff Library





CYFROLAU'N CANU



Helpa dy Blentyn i Fwynhau Darllen yr Haf Hwn!

Yr haf hwn, rhowch gyfle i'ch plentyn fwynhau darllen a darganfod straeon newydd cyffrous! Mae'r Sialens Ddarllen yr Haf, a grëwyd gan The Reading Agency ac a gyflwynir mewn partneriaeth â llyfrgelloedd cyhoeddus, yn gynllun AM DDIM ac llawn hwyl sy'n helpu plant i barhau i ddarllen dros wyliau'r haf.

Thema'r flwyddyn hon yw Cyfrolau'n Canu, a gefnogir gan Universal Music Group UK. Mae'r Sialens yn dathlu'r cysylltiad rhwng cerddoriaeth a darllen, a'r ffordd y gall y ddau ein hysbrydoli, ein symud a'n cysylltu. Mae darluniau gan yr awdur a'r darlunydd Harry Woodgate, yn llwyddo i ddod â'r Sialens yn fyw eleni!

Pam cymryd rhan?

- AM DDIM yn eich llyfrgell leol ac ar-lein
- Helpu plant i ddatblygu cariad gydol oes at ddarllen
- Magu hyder, dychymyg a chreadigrwydd
- Cyfle i ennill gwobrau a thystysgrifau!
- Hwyl i'r teulu cyfan – gallwch ymweld â'r llyfrgell gyda'ch gilydd
- Dywedodd 95% o blant eu bod wedi darllen mwy ar ôl cymryd rhan
- Gall plant ddewis eu llyfrau eu hunain i'w darllen, casglu gwobrau dros yr haf, a derbyn tystysgrif neu fedal pan fyddant wedi cwblhau'r Sialens.





Ewch i'ch llyfrgell leol neu ewch i:
sialensddarllenyrfhaf.org.uk
i ddechrau'r Sialens o 4 Gorffennaf 2026 ymlaen.

Helpa dy blentyn i ddechrau ar ei antur ddarllen heddiw!

Darluniau © Harry Woodgate 2026. Cyfrolau'n Canu © The Reading Agency 2026. Illustrations © Harry Woodgate 2026
Read to the Beat © The Reading Agency 2026, registered charity number 1085443 England and Wales.



READ to the BEAT



Help Your Child Discover the Joy of Reading This Summer!

This summer, give your child the chance to fall in love with reading! The Summer Reading Challenge, created by The Reading Agency and delivered in partnership with public libraries, is a FREE, fun-packed way to keep kids reading and learning all summer long.

This year's theme, **Read to the Beat**, and is powered by Universal Music Group UK. The Challenge will celebrate the joy of music and the power it has to move, inspire, and connect us – all through the magic of reading. The Challenge is being brought to life with illustrations by award-winning author and illustrator, Harry Woodgate.

Why join?

- It's FREE! Available at local libraries and online
- Inspires a lifelong love of reading
- Boosts confidence, creativity, and imagination
- Earn rewards, certificates, and prizes
- Fun for the whole family. Visit your local library together
- 95% of children said they read more after joining!
- Children choose their own books to read, collect rewards over the summer and receive a certificate or medal when they complete the challenge.





Visit your local library or go online at
summerreadingchallenge.org.uk
to get started from 4 July 2026.

Help your child start their reading adventure today!

Illustrations © Harry Woodgate 2026. Read to the Beat © The Reading Agency 2026, registered charity number 1085443 England and Wales.



cynllun chwarae agored

Bwrlwm Haf!

open access play scheme

Dosbarth Derbyn - Blwyddyn 6/ Reception - Year 6

Cofrestru ar y dydd/ Register on the day

Cyfanswm 50 i bob lleoliad/ Maximum Capacity 50



YSGOL COED Y GOF

10.00am-11.55am

W1 Mawrth - Iau 21-23.07.2026 Tuesday-Thursday

W2 Llun - Iau 27-30.07.2026 Monday-Thursday

- CELF A CHREFFT/ ART AND CRAFTS
- LEGO ● CHWARAEON/ SPORTS
- GEMAU/ GAMES
- GWEITHGAREDDAU STEM ACTIVITIES
- A MWY/ and more!

www.mentercaerdydd.cymru

AM DDIM/ FREE



Prosiect Gwyliau Gwaith Chwarae
Playworks Holiday Project

Menter Caerdydd - Rhif Elusen: 1098606. Rhif Cwmni: 4576565